# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 7

CYFFREDINOL

*Troseddau*

PROSPECTIVE

### 201 Sancsiynau sifil

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â throsedd o dan y Ddeddf hon y gallent ei gwneud o dan Ran 3 o DGRhS 2008 (sancsiynau sifil) pe bai, at ddibenion y Rhan honno—

(a) Gweinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod arall a chanddo swyddogaeth orfodi mewn perthynas â'r drosedd yn rheoleiddiwr, a

(b) y drosedd yn drosedd berthnasol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw.

(2) Mae adrannau 59(3) a 60(1) a (2) o DGRhS 2008 (ymgynghori) yn gymwys i reoliadau o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys i orchymyn o dan Ran 3 o DGRhS 2008.

(3) Mae adrannau 63 i 70 o DGRhS 2008 (canllawiau, arfer pwerau, taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru a datgelu gwybodaeth) ym gymwys mewn perthynas â darpariaeth a wneir o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â darpariaeth a wneir o dan Ran 3 o DGRhS 2008.

(4) Yn is-adran (1) mae'r cyfeiriad at awdurdod a chanddo swyddogaeth orfodi i'w ddehongli yn unol ag adran 71 o DGRhS 2008.

(5) Yn yr adran hon ystyr "DGRhS 2008" yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13).

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 201. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 201 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 201.